Cyfres yr 20fed Ganrif.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

Yr Ymofynydd

Cyf. 12. Rhif 4.] EBRILL, 1912. [Pris 2c.

CYNWYSIAD.

Ar Edyn Ffydd.
Y Beibl: yr hyn yw a'r hyn nad yw.
Parch. Joseph Wood.
Cyfalaf a Llafur.
Nodion. Tolstoy.
Ymweliad a Canada a'r Unol Dalaethau.
Parch. E. Ceredig Jones, M.A.
Penillion er cof am y diweddar Gadben William Davies, Rhydowenfach.
Cledlyn.
Socrates—A fu y fath ddyn?
Cyfarfodydd Chwarterol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.
Priodas. Marwgofion.
Manion ac Hanesion.

Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2s 6d y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygydd erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

TALIADAU—

Parch. T. Ll. J., Lerpwl; D. D., Llanbedr; E. J., Pensarn.

YR YMOFYNYDD.

GELLIR CAEL YCHYDIG

GYFROLAU O'R YMOFYNYDD

o'r Swyddfa er eu rhwymo am y blynyddau canlynol :—
1901, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10, 11.

Pris 2/- y Gyfrol yn rhad drwy y Post.

Anfoner i SWYDDFA YR YMOFYNYDD, LLANDYSSUL.

Y CLEFYD AR Y IEIR.

PAHAM y goddefwch i'r gelyn yma i wneud y fath golled i chwi, pan y mae meddyginiaeth sydd wedi ei phrofi yn sicr o'i atal, o fewn eich cyrhaedd? Danfonwch am dano ar unwaith: fe fydd prawf o un blwch ohono yn well i chwi na tudalen o siárad.

1s. 10d. y blwch yn rhad drwy y post, neu dri am 5s.

ODDIWRTH Y GWNEUTHURWR—

John J. Davies, M.P.S., Chemist, Llanybyther.

—— APPLICATIONS FOR AGENCIES ENTERTAINED. ——

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . .
Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"*Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda.*"—*Paul.*

CYFRES NEWYDD.] EBRILL, 1912. [CYF. XII. RHIF 4.

AR EDYN FFYDD.

—GWERTH SYLW EIN IEUENCTYD.—

"Yr wyf yn llwyrymwrthodwr. ac nid wyf yn cyffwrdd a'r dybacco."—Clifford, y dyn enillodd y King's Prize, yn Bisley.

—o—

"Yr ydych yn fwy tebyg o fethu yn eich galwedigaeth drwy'r arferiad o yfed *alcohol* na thrwy holl demtasiynau eraill gyda'u gilydd,"—Dr. Nansen.

—o—

"Priodolir llawer o aflwyddiant ein Ysgolion Sul i absenoldeb y bobl mewn oed.

—o—

Ganwyd Charles Dickens Chwefror 12, 1812. Gwnaeth fwy drwy ei nofelau i enill cydymdeimlad a'r tlawd na neb yn ei oes.

—o—

"Foneddigion, pan yn delio a dynion fel fi, dechreuwch yn y pen iawn. Rhoddwch ini, mewn trugaredd, well cartrefi pan yn gorwedd yn ein cewyll; rhoddwch ini well bwyd pan yn gweithio am ein bywioliaeth; rhoddwch ini ddeddfau caredicach pan yn myned ar gam; a pheidiwch gwaeddi carchar, carchar, carchar, lle bynag y trown. Y mae gan feibion llafur galonau amyneddgar, heddychlawn, ewyllysgar; ond rhaid i chwi osod yr yspryd iawn ynddynt yn gyntaf. Y mae eu hyspryd wedi ei droi oddiwrthych y dyddiau hyn. Dygwch ef yn ol, dygwch ef yn ol."—Charles Dickens, drwy enau Will Fern.

—o—

Desgrifiai Charles Dickens Undodiaeth fel y grefydd oedd yn cydymdeimlo a dynion o bob cred, heb feiddio pasio barn condemniad ar neb. Ceisiodd gan ei blant i gymeryd eu harwain gan addysg y Testament Newydd, mewn yspryd eang, ac i beidio ymddiried i esponiad cul y llythyren gan unrhyw ddyn.

Y BEIBL: YR HYN YW A'R HYN NAD YW.

Gan y Parch. Joseph Wood.

X.—(Parhad).

Dadblygiad yn y Beibl—Moesoldeb.

GADEWCH i ni droi at y Bregeth ar y Mynydd a chlywed Iesu yn dweyd: "*Clywsoch ddywedyd gan y rhai gynt . . . ond yr wyf fi yn dywedyd i chwi, &c.*"* Dyma ragymadrodd yr Athraw Mawr i'w addysg ar bum pwnc moesoldeb ac ymarweddiad. Gan gymeryd i fyny y cwestiynau o ddynladdiad, godineb, llwon, ad-daliad a helaethrwydd cariad dynol, dengys nad yw'r hen reol yn ddigon mawr i blant yr amser diweddaf. Mae meddwl, teimlad, a gwar-eiddiad wedi cynyddu a gofynant am foesoldeb mwy ysprydol. Yr oedd yr hen reol yn ddigon i'r oes y llefarwyd hi, a bu yn ddigon am lawer oes ddilynol; yr oedd yn gymaint a allai dynion ddeall a defnyddio i bwrpas yr amser hwnw ond y mae dyn wedi gwneud cynydd wedi hyny, ac yn awr â Iesu yn mlaen i fynegi ac egluro cyfraith uwch. Mewn man arall dywed, "*O achos eich calon-galedwch chwi yr ysgrifenodd efe (Moses) i chwi y gorchymyn hwnw*"† gorchymyn nad oedd yn ddiamodol dda. Yr oedd gorchymynion fel hwn yn dda i'r oes a'r amser a'r amgylchiadau; ond diflanasant pan gyrhaeddodd dynion i stâd uwch o wareiddiad. Nis gallai yr Iddewon yn amser Moses ddeall addysg ysprydol aruchel yr Iesu; yr oedd arnynt angen rhywbeth mwy garw ac ar dir îs o feddwl a theimlad. Ond nis gallwch gael y gradd uwch o dyfiant heb yr îs. A yw'r Beibl ynte, o lai o werth moesol i ni am y gwelwn ynddo foesoldeb cynyddol? Na, nid felly, ond nid yw mwyach o werth cyfartal yn ei holl ranau. Os yr honwn y perthyn moesoldeb y Pum Llyfr i radd mwy elfenol o fywyd dynol na moesoldeb y Bregeth ar y Mynydd, ni wnawn ond hòni fod un yn fwy buddiol er ein haddysg na'r llall. Ac eto mae yn werth gwneud ymchwiliad i'r graddau îs yn y Beibl, am y rhydd i ni amgyffred trwyadl am Dduw fel dysgawdwr, yr hwn sydd yn hyfforddi gydag Amynedd Diderfyn lwythau dynolryw i wybodaeth uwch yn barhaus.

Sylwch, fel engraifft o'i addysg ar gwestiynau ereill, sut yr ymdrin Iesu â hen gyfraith Ad-daledigaeth. Fel hyn y dywedai'r gyfraith Foesenaidd: "*A'r hwn a laddo ddyn lladder yntau yn farw. A'r hwn a laddo anifail, taled am dano; anifail am anifail. A phan wnelo un anaf ar ei gymydog, fel y gwnaeth, gwneler iddo. Torriad am dorriad, llygad am lygad, dant am ddant; megys y gwnaeth anaf ar ddyn, felly gwneler iddo yntau.*" Ac eto, gyda manylrwydd ar-swydus ac ofnadwy, "*Llygad am lygad, dant am ddant, llaw am law, troed am droed, llosg am losg, archoll am archoll, a chlais am glais.*"‡

---

*Mathew v. 21. †Marc x. 5. ‡Lefiticus xxiv. 17—20.

Yn awr, syniad boreuol a thrwsgl am gyfiawnder yw hwn, gawn yn mhob llwyth cyntefig. Syniad cyntaf dyn am gyfiawnder yw, llygad am lygad a dant am ddant. Ad-dalu yn yr un modd yw'r unig ffordd i gospi'r drwg-weithredwr; ac yn unol a chyfraith gydnabyddir yn gyffredin, mae dial yn gam nes yn mlaen na'r cyflwr hwnw o gymdeithas lle na chospir drwg-weithredwyr o gwbl. Yn y modd hwn gwelwn syniad dyn am gyfiawnder yn cael ei ffurfio yn raddol a than anhawsderau. Ond yr oedd yn anmherffaith iawn ac achosodd lawer o ddrygau.

Pan y deuwn yn mlaen i lyfr Diarebion yr ydym wedi cyrhaedd tir uwch. "*Os dy elyn a newyna, portha ef â bara; ac os sycheda, dod iddo ddiod i'w yfed: canys marwor a bentyrri ar ei ben ef; a'r Arglwydd a dâl i ti.*"* Mae'r ysgrifenydd yma fyd cyfan o flaen Moses a chanddo amgyffred hollol wahanol am ddyledswydd.

Yn nesaf, gwrandewch ar Iesu ar ol iddo ddyfynu y rheol Foesenaidd—"*Eithr yr ydwyf fi yn dywedyd wrthych chwi, Cerwch eich gelyn, bendithiwch y rhai a'ch melldithiant, gwnewch dda i'r sawl a'ch casant, a gweddiwch dros y rhai a wnel niwed i chwi ac a'ch erlidiant*"†

Mae dynoliaeth o'r diwedd wedi dod i'w blagur; dyrchefir y ddelfryd foesol yn rhyfeddol; mae cariad, trugaredd a heddwch wedi cymeryd lle ymddial. Cymhwysa beirniaid poblogaidd moesoldeb yr Hen Destament yr ymresymiad mwyaf gwrthun posibl at y pwnc hwn. Credant ei bod yn ddigon i gyfeirio at gyfraith benydiol drwsgl, megys cyfraith ymddial, at laddfa gyffredinol y Canaaneaid, at y Salmau melldithiol, at frad Jacob, at feddwdod Noah, at odineb Dafydd, ac fe ganlyn ar unwaith mai dyma yw moesoldeb y Beibl. Ond nid yw hyn yn amgenach na barnu y cerfluniwr oddiwrth y darnau toredig o geryg.

Nid moesoldeb y Beibl yw os nad yw y moesoldeb yn arwain y Beibl i fyny iddo yn y diwedd. Mae'r moesoldeb i'w farnu oddiwrth yr hyn ddaeth yn Iesu, nid oddiwrth ei raddau blaenorol o dyfiant.

Moesoldeb gradd israddol a gwaelach o fodolaeth ddynol oedd y moesoldeb ganiatäi ymddial ac amlwreicaeth, a diflanodd y gradd yma o'r golwg a phasiodd allan o ymarferiad fel y daeth yr uwch yn raddol i'r golwg. Glyna y beirniad poblogaidd wrth ddosbarth o orchymynion nad oeddent ond ceryg camu i bethau uwch; ond yr hyn ddaeth yn ei esiamplau godicocaf yw moesoldeb y Beibl, ac nid yr hyn oedd yn ei raddau darpariaethol. Yn yr hanes gawn yn yr Hen Destament 'roedd Duw yn gweithio tuag at grefydd ysprydol a moesoldeb ysprydol. Âi y gyfraith Foesenaidd mor bell ag y gallai pobl anoleuedig fynd; yn wir, 'roedd ychydig o flaen ei hamser; ac eto pan honwch ei bod yn anmherffaith dywedwch yr hyn sydd ffaith. Ond yr oedd hadau rhywbeth mwy ardderchog o'i mewn, 'roedd yna amcan cuddiedig raid i chwi gymeryd i ystyriaeth, gog-

---

* Diarebion xxv. 21—22. † Math. v. 44.

wyddiad ac egwyddor cynydd, trwy ba rai y dygwyd y genedl o ris i ris i safonau uwch o ymdeimlad ac amgyffred moesol. Yn meddyliau godidocaf Israel fe gawn yr ymwybodolrwydd y rhaid dwyn bywyd i gydffurfiad â gweledigaeth decach. Edrychwch ar Dafydd. Nis gall dim allwch ddweyd am lofruddiaeth Uriah a'r cysylltiad â Bathsheba fod yn rhy lym. Condemniwch ei ymddygiad gyda digllonedd, ac yr ydych yn iawn, ond felly gwna y Beibl hefyd. Pan ddywedodd Nathan y prophwyd, "*Ti yw y dyn,*" dechreuodd holl ellyllon dialgar cydwybod Dafydd ei frathu. Ond chwi sylwch fod y math yma o gamwedd yn eithaf cyffredin ar ran teyrn Dwyreiniol, ac hyd yr amser yma nid oedd wedi derbyn fawr o gosp am hyny. Nid oedd un prophwyd erioed hyd yn hyn wedi beiddio gwynebu'r fath deyrn a dyweyd, "*Ti yw y dyn.*" Mae yn farc yn nghynydd moesoldeb. Ac y mae Dafydd yn wahanol i frenhinoedd ereill y Dwyrain yn hyn, ei fod yn gwybod iddo wneud drwg. 'Roedd wedi cyrhaedd syniad uwch am ddyledswydd nag ereill, ac felly nis gallai bechu a bod yn dawel yn nghylch hyny. Nid llais y wlad a'i blinai, canys yn ei oes ef byddai yn rhwydd iawn i'r llais hwn esgusodi ei drosedd; yn hytrach, ei gydwybod yn codi yn uwch na'i oes oedd achos ei benyd a'r hyn a'i gorfododd i geisio cael ymwared mewn ystrywiau a dichellion, ac a berodd iddi o'r diwedd waeddi allan, "*Gwared fi oddiwrth waed, O Dduw.*" Prin y gallai'r fath beth a hyn ddigwydd mewn unrhyw wlad neu lys arall yr amser hwnw nac am lawer oes ddilynol.

Arwydd o gymeriad mawr yw hi i ddangos ansawdd uwch o feddwl nag o eiddo oes neu genedl dyn; ac er i Dafydd gwympo, yn ei achos ef cwymp oedd mewn gwirionedd, ac nid safon arferol ei fywyd na'r llwybr gydnabyddai fel yr un iawn. Gallasai'r un gweithredoedd gwael fod wedi eu cyflawni gan ddyn tebyg i Pharaoh neu Herod, a byddent wedi eu anghofio er ys llawer dydd; heb fawr o sylw yn cael ei dalu iddynt gan y deiliaid, heb gael eu ceryddu erioed gan brophwyd ac heb achosi yr un anesmwythder i'r teyrn. Ond i wel'd penadur Dwyreiniol yn flin ac adfydus, yn cael ei boeni a'i gospi ac yn edifarhau oherwydd gweithred fyddai unrhyw un o'i gyd-benaethiaid yn ollwng dros gof fel dichelltro cywrain, 'roedd hyn yn rhywbeth hollol tuallan i'r cyffredin, a dangosai ddyn yn esgyn yn foesol i safon uwch na'r un dderbynid gan ei oes; ac felly yn helpu ymlaen, fel pe tae trwy yspryd prophwydol, safon foesol dynolryw.

Yn y Beibl, ynte, mae gyda ni syniad cynyddol am foesoldeb. Gwelwn y meddylrych yn ei ddechreuad garw, ddim ond haner eglur, yn ymddangos ar ol llawer ymdrech galed allan o'r cnawdol a'r daearol; gwelwn ef mewn amryw raddau o gynydd; gwelwn ef yn ei berffeithiad gogoneddus a digymar yn Iesu Grist. Felly nid yw o wahaniaeth faint o gamsyniadau y deuwn o hyd iddynt yn y Beibl, ac nid yw amherffeithrwydd ei arwyr yn tynu oddiwrth ei arwyddocâd ychwaith. Canys cyhyd ag y bydd y byd am wybod beth yw moesoldeb a sut i'w gael, a sut yr esgynodd dynion i fyny allan o foesoldeb îs ac y cyrhaeddasant safon uchel Paul a Ioan,

cyhyd y bydd i'r Beibl ddal ei dir. Ceir y meddylddrych mewn hen lyfrau ereill, ond y mae yn fwy eglur ac yn hawddach i ddyfod o hyd iddo yn y Beibl nag yn un man arall ac yn creu argraff anghymarol fwy. Mae gan y Beibl ddawn at foesoldeb, at uniondeb, at wirionedd, cyfiawnder a chariad ac at wneud i ni deimlo beth ydynt a rhoi i ni frwdfrydedd drostynt. Mae'n wir y byddai'r ddelfryd o foesoldeb goleddwn yn awr yn anmhosibl yn mhlentyndod yr hil ddynol. Ni fyddai i neb ei deall. Pe bae wedi ei dadguddio, byddai wedi gwneud mwy o ddrwg nag o les. Ond o blentyndod yr hil dangosir i ni gyfraith cynydd ar waith; ac ar hyd y llinell yma o ddadblygiad moesol â dyn yn mlaen yn ddiysgog—gan droi yn ol, yn wir, ar adegau, ond bob amser yn edifarhau am hyny gyda dagrau a chywilydd a chyda phenderfyniad newydd—yn cael ei arwain yn mlaen yn araf gan Dduw o un oruchafiaeth foesol ac o un ddelfryd foesol i'r llall, hyd nes yr ymddengys Mab y Dyn o uchel fri gyda syniad mor uchel, mor brydferth, mor ysprydol, ac mor berffaith fel mae'r byd hyd hyn yn methu ei sylweddoli. Ond mae gyda ni obaith prophwydol yn ein mynwesau na fydd i ni bob amser fethu.

CYFALAF A LLAFUR.

Po fwyaf fydd o ofal gartref am heddwch, heddwch rhwng gwr a gwraig, rhwng rhieni a phlant, mwyaf i gyd fydd y gobaith am gysur.

Y mae harddwch ar bob llaw,
Pan fo serch yn nhre;
Yn mhob sain llawenydd ddaw,
Pan fo serch yn nhre.

Da fyddai cael rhwymyn cyffelyb rhwng meistr a gweithiwr, rhwng cyfalaf a llafur (capital and labour), Nid cyfaill y naill na'r llall yw'r dyn sydd o hyd yn ceisio enyn cynen ac ymryson rhwng y ddwy blaid hyn. Y mae'r naill blaid yn angenrheidiol i'r llall, a llwyddiant neu aflwyddiant un yn rhwym o ddwyn dyoddefaint neu golled yn gynar neu yn ddiweddar i'r llall. Beth wnelai'r gweithiwr pe na fyddai neb yn barod i ddwyn ei gyfalaf i agor ein pyllau glo? Beth wnelai'r meistr pe'n methu cael gweithiwr i dori glo. Canu'n gryf y mae Amnon pan y dywed—

Pe delid pob llaw am wyth awr a deugain
E fyddai'n ddydd braw ofnadwy ar Llundain.

Po fwyaf fo'r cyfalaf, mwyaf fydd y galw am weithwyr i beri i'r

cyfalaf ddwyn llog. Nid oes neb am gadw ei arian yn segur os gall help. Difa'r cyfalaf fydd difa'r wydd sydd yn dodwy'r wyau aur. Ffwl oedd y dyn laddodd yr wydd hono, ac nid call yn sicr yw'r dyn sydd yn ceisio difa cyfalaf ein gwlad.

Y mae cyfeirio pob annealldwriaeth i ganolwr yn fil mwy doeth na chael streic, yr hon sydd yn achosi colled i bawb—nid yn unig i'r meistr a'r gweithiwr, ond hefyd i luaws eraill, megys y siopwr, y cigydd, &c. Dichon nad yw'r doethineb i gyd ddim yn meddiant meistr na gweithiwr, ac felly, da fydd i'r pleidiau gwrdd â'u gilydd a cheisio dyfod i gyd-ddealldwriaeth; ac os methir wedi'n, yna gosod y peth yn nwylaw canolwr fyddo gan y ddwy blaid ymddired ynddo.

Y mae llawer o son am Sosialaeth heddyw, ac yr ydym i gyd yn Sosialiaid yn awr, ebe'r diweddar Syr William Harcourt, ond i ni gael gosod ein hystyr ein hunain ar y gair, oblegid cofier, y mae Sosialaeth a Sosialaeth—a gwahaniaeth mawr rhyngddynt. Gofalu am "Number One" yw arwyddair un dosparth o Sosialiaid—y cwbl i fi, a'r rest i Shoni 'mrawd. Adroddir am Esgob Stubbs, pan oedd yn ficer yn Lerpwl, ei fod dan orfod un adeg i fyned i gasglu at rywbeth. Galwodd ar un o'r marsiandwyr mawrion, ac wedi dywedyd ei neges, atebodd y marsiandwr:—"Na chewch ddim gyda fi, Mr. Stubbs. Yr wyf wedi clywed eich bod yn un o'r Sosialiaid yna." Ac ebe Mr. Stubbs, "Y mae dau fath o Sosialiaid, motto un yw, 'What shall I give?' a motto'r llall 'What shall I get?" Dywedir i Mr. Stubbs fyned allan a *cheque* am ugain punt yn ei boced. Y mae'r Sosialaeth sydd a'i wyneb at gyfiawnder yn ystyried hawliau yr "arall" yn ogystal a'r "Fi."

Fel hyn yr ysgrifena George R. Sims—dichon ei fod yntau yn eithafol—"Rhan o wallgofrwydd Sosialaidd yw edrych ar Gyfalaf fel pe byddai yn elyn cyhoeddus, ac ystyried pob niwed wneir iddo yn lles cyffredin. Clywais Sosialydd enwog yn dweyd nad oes gan Sosialaeth ddim gwaith yn y wlad hon i fod yn alluog i gymeryd meddiant o'r eiddo lle mae cyfalaf wedi ei osod allan ar lôg (neu wedi ei investo), ond gobeithiai fod yn alluog i wneud pob anturiaeth lle mae cyfalaf wedi ei roi allan, mor ddigynyrch fel na all y cyfalafwr gael dim am ei arian. Yn lle cyfalafwyr (*capitalists*) darllenwch cyfranddalwyr (*shareholders*), ac yn lle cyfranddalwyr darllenwch bobl o bob dosbarth sydd wedi gosod eu harian allan at wasanaeth y cyhoedd, ac y mae genych ar unwaith, ar ddu a gwyn, y drwg anfad sydd ar waith yn tangloddio llwyddiant y wlad a lles cymdeithas yn gyffredin."

S.N.S.

DYN GONEST.

Dyn gonest, da iawn gana—ei unawd
Tan ei wanwyn yrfa;
O'i wisg onest esgyna—
I fyd y doeth, fywyd da.

Trebanos. —H.M.

NODION.

NEFOEDD AC UFFERN.—"Tân digofaint Duw," ebe Maurice wrth Haweis, "yw tân ei gariad hefyd. Rhaid iddo losgi pob peth sy'n wrthwynebol iddo. Dyna ei safle sefydlog yn mherthynas i ddrwg a da. Mae yn llosgi yn dragwyddol i ddinystrio pob drwg yn mhob man. Mae yn cynhesu, yn meithrin, yn porthi pob daioni yn dragwyddol yn mhob man. Nid yw yn canlyn am fod y cyflwr yn sefydlog y byddwch chwi yn wastad yn sefydlog yn y cyflwr hwnw. Y mae uffern yma ac yn awr yn ogystal ac acw ac yn ol llaw. Gellwch fod yn uffern heddyw ac allan o honi y fory."

EDIFEIRWCH.—Edifarhau yw newid meddwl. Gweithred o eiddo'r dyn ei hunan yw. Stopiwyd pregethwr un tro gan ddyn ar yr heol yn Llundain. Nid yw yn foneddigaidd i wneud hyn feallai; ond dywedodd wrtho:—"Clywais chwi yn pregethu unwaith a gwnaethoch sylw ddarfu newid holl gyfeiriad fy mywyd, rhywbeth wrth gwrs na ddarfu i mi byth ei anghofio." "Beth oedd hyny?" ebe'r pregethwr. "Dyma fe—fod yr agoriad (latch) ar ein hochr ni i'r drws. Yr oeddwn wedi arfer meddwl mai un caled iawn oedd Duw, a bod yn rhaid i ni wneud rhywbeth i'w dangnofi. Meddwl newydd i mi oedd fod Duw yn aros i mi agor iddo Ef!" Mae'r cadben yn cael allan fod y dyn wrth y llyw yn cyfeirio'r llong ar ei hunion at y creigiau. Sut mae gochelyd y perygl? Nid trwy scrwbio'r deck, na thrwy anfon y dynion at y pwmp. Os yw'r llong i gael ei hachub, un peth yn unig raid wneud, sef newid ei chwrs. Felly mae'r cadben yn rhoi'r gorchymyn, mae'r llong yn troi, ac yn brysio oddi wrth y perygl. Trowch oddiwrth y drwg! Dyna'r edifeirwch bregethid gan Ioan Fedyddiwr.

DARLLENWN fod llyfr y diweddar Dr. Hugh Williams o'r Bala—Christianity in Early Britain—y peth mwyaf dysgedig sydd wedi ei gyhoeddi ar y pwnc hyd yma. Nid ydym wedi ei ddarllen, ond dysgwyliwn gael y cyfleu cyn hir. Deallwn ei fod yn dymchwelyd llawer o'r hen draddodiadau poblogaidd fel pethau di-sail. Cawn farn eraill o bosibl yn ystod y misoedd nesaf. Cofiwn ddarllen erthygl ddyddorol iawn rai blynyddau'n ol, ond un na fyddai'r Dr. Williams yn cytuno a hi, er mai Cymro, y Dr. William Richards o Lynn, oedd awdwr hono. Rywbeth tebyg i hyn yw geiriau diweddaf Dr. Richards: "It is a fact, however strange it may sound to the ears of a Welshman—mai Bran ddaeth a'r Efengyl gyntaf i Gymru!"

TOLSTOY.

Rywbryd yn hanes pob cenedl cyfyd arwr nodweddiadol o'i bobl : gwr yn meddu cymeriad ei gyd-wladwyr ar ei amlycaf ; yn dangos nodweddion bro ei enedigaeth i'r byd, ac ar yr un pryd yn angerddoli y nodwedddion hyny yn ei gyd-genedl. Mae enwi Plato, Goethe, Shakespeare a Napoleon yn ddigon i ddangos y ffaith hon. Medrodd y dynion fynegi i'r byd gymeriad eu cyd-genedl yn ei uchder a'i ddyfnder ; ac nis gellir mwyach wahanu eu henwau oddiwrth y gwledydd a'u magodd.

Cynrychiolydd y genedl Gymreig o flaen y byd heddyw ydyw

MR. LLOYD GEORGE ;

dengys y Cymro ar ei gryfaf ; ac erys dylanwad ei gymeriad ar ei genedl am oesau i ddod. Y mae wedi rhoi mynegiant i feddwl ei wlad, ac wrth wneuthur hyny, mae wedi dyfnhau'r meddwl hwnw yn anferthol.

Sonia hen fardd Cymreig am "fôr y cyffredin mud," gan gyfeirio at y werin ddistaw, ddi-fynegiant ; yn disgwyl yn amyneddgar am arwr i godi, i fynegi ei meddwl a'i theimlad.

Mae meddwl y byd fel *iceberg* ; 'does ond y ddegfed ran o hono yn dyfod byth i'r golwg, a hyny trwy yr arwr, y mynegydd ; boed fardd, proffwyd, milwr, neu ddyfeisydd, y daw cymaint a hyny yn amlwg uwchlaw dyfnfor hanes.

Tolstoy sydd wedi dehongli enaid Rwssia i'r byd ; enaid mawr, llydan fel gwastadedd anferth y wlad ; tymhestlog fel y gauafau ruthrant dros y tir o fynyddoedd ia'r pegynau ; poeth fel yr hafau dramwyant yno o drofanau Affrig.

Cymeriad rhyfedd oedd Tolstoy, anodd i'r Cymro ei ddeall ; bardd a milwr, sant a phechadur, gwerinwr ac uchelwr, gwladgarwr a dyngarwr, gwr rhyfel a phroffwyd hedddwch.

Am oes faith bu wrthi yn barhaus yn mynegi ei feddwl, ei deimladau, a'i weithredoedd, ac yn adrodd meddwl a theimladau ei wlad. Rhydd ini ddarlun o hono ei hun yn ei holl rinweddau a'i ddiffygion, nis gedy ddim allan. Ac ynddo gwelwn ddarlun byw o'r miliynau mud a lafuriant hyd wastadeddau ymherodraeth Rwssia wen.

Cadwodd ddyddiadur drwy ran fwyaf ei oes ; ysgrifenodd gofiantau hirion o wahonol gyfnodau ei fywyd ; a chyhoeddodd nofelau, ac ystoriau, a thraethodau gyfieithiwyd i bob iaith wareiddiedig bron.

Bu fyw yn afradlon yn mysg uchelwyr pechadurus ei wlad hyd yn agos ganol oed ; treuliodd ugain mlynedd yn

SYNU LLENORION EWROP ;

ac am y chwarter canrif olaf o'i oes bu fyw yn mysg gwerinwyr syml ac anwybodus ei wlad.

Bu yn astudio'r gyfraith yn St. Petersburg, a'r ieithoedd dwyreiniol yn Kazan ; ac yn ei oriau hamddenol dysgodd holl ieithoedd pwysig y cyfandir. Ac heblaw hyn yr oedd yn hyddysg mewn gwyddor ac athroniaeth. Yr oedd yn batriarch o gorff, ac yn gawr o feddwl. Yfodd win bywyd ar ei felusaf, a chafodd brofi'r wermod oedd ar waelod y cwpan. Cawn ef weithiau yn dawnsio'n ffroenuchel yn ystafelloedd coegwych bonedd St. Petersburg ; bryd arall cawn ef yn ymgilio yn edifeiriol i unigedd y wlad, wedi blino ar y byd, ac yn rhy lwfr i gyflawni hunanladdiad.

Mae Tolstoy yn ddyddorol i ni yn gyntaf fel personoliaeth rymus ac amlochrog. Yn ail, mae'n apelio atom fel un yn cyd-grynhoi ynddo'i hun nodweddion arbenigol cenedl enfawr, ac ar lawer ystyriaeth, cenedl gyfrin ac anhysbys. Yn drydydd fe'n

dyddora fel un o lenorion mwyaf yr oesau. Yr hyn yw Shakespeare i Loegr, Dafydd ap Gwilym i Gymru, Goethe i'r Almaen, a Dante i'r Eidal, dyna yw Tolstoy i Russia. Ac yn olaf myn ein sylw fel proffwyd brawdoliaeth gyffredinol. Ymddengys y bedair agwedd hon ar ei hanes drwy roddi braslun o'i fywyd ; oblegid mae holl weithredoedd dyn yn deilliaw o'r un canolbwynt ; maent yn tarddu allan o'r bersonoliaeth fel y dadblyga, megis ag y tyf y cangau a'r ffrwyth o'r goeden sydd yn cynhyddu.

Ganwyd Léof Nicholaevitch Tolstoy ar ystad ei gyndeidiau yn nhalaeth Toula, yn neppell o Moscow, yn 1828. Treuliodd yn agos yr oll o'i oes hirfaith yn mhlasdy ei dad—Yashnay Polyana ; hyd yn oed yn ei ieuenctyd ystormus dychwelai dro ar ol tro yn ol o dan gronglwyd ei febyd. Perthynai i ddosparth uchelwyr Russia. Bu un o'i hynafiaid, Peter Tolstoy, yn llys Pedr Fawr, a chan y penadur hwn y cafodd y teitl etifeddol o *Count*—teitl newydd ei drosglwyddo i'r wlad o'r Almaen.

Yr oedd y teulu gartref yn un patriarchaidd ; a'r plant a'r wyrion a'r caethion yn byw oll yn yr un fan, ac yn ffurfio cymdeithas fechan ar ben ei hunain. Rhaid cofio fod y caethion hyn yn rhwym wrth yr ystad ; ac mai yn 1861 y rhyddhawyd hwynt yn Russia. Cai'r caethion hyn fyd gweddol heddychol a chysurus yn Yashnaya Polyana ; ac ni wnaeth ei rhyddhad fawr argraff ar feddwl Tolstoy. Yn wir barnai ei bod yn well arnynt dan ofal caredig ei dad, nag yn marchnad ddiwydianol cyfalaf a chystadleuaeth.

Wedi arwain y bywyd neillduedig ac annibynol hwn yn ei febyd, nid rhyfedd i Tolstoy anghofio pwysigrwydd ei safle fel dinesydd cyfrifol ymherodraeth fawr ac unedig. A hyn yn ddiambeu oedd un o'r achosion iddo goleddu syniadau hollol wrth-lywodraethol cyn diwedd ei oes. Bu farw ei rieni ac efe eto'n ieuanc, gan ei ryddhau o ddisgyblaeth deuluol, yr hyn fu'n achos ychwanegol iddo wrthryfela yn erbyn pob disgyblaeth wladol yn nes yn mlaen yn ei fywyd.

Addysgwyd ef ar ei aelwyd gartref gan athrawon Ffrengig a Germanaidd ; a bu hyn eto yn anfantais iddo yfed yr ysbryd cymdeithasol a geir mewn ysgol gyhoeddus. Daeth yn fuan yn ieithydd medrus ; yn meddu gwybodaeth ragorol o'r Ffrangeg a'r Ellmyneg, heblaw meistrolaeth dda ar y Saesneg.

Yr oedd yn blentyn cryf ac iach, er yn anhardd ; meddai wefusau tewion a thrwyn fflat ; drwy ei fywyd yr oedd ei wyneb yn arw a gwerinaidd ; ond daeth arno ryw brydferthwch ysprydol fel y torai gwawr athrylith yn raddol ar ei enaid.

Pan yn fachgen ieuanc, parai ei anharddwch lawer o boen iddo ; tybiai nad oedd bosibl i un yn meddu'r fath agwedd hyll fyth gael yr un pleser daearol ; a chyffesai iddo, ar fwy nag un achlysur, weddio ar i wyrth gael ei chyflawni ar ei wyneb amhrydferth.

Pan yn 15 oed aeth i Brif Athrofa Kazan, ar lan y Volga, ac ar y cyntaf, ymunodd a dosbarthiadau yr Ieithoedd Dwyreiniol. Fel eraill o feib athrylith, efrydydd digon claiar fu ; ymrodd i loddest a phleser ; a mynychai'r ddawns a'r chwareudy gyda mwy o eiddgarwch na'i ddosbarthiadau yn y coleg. Yn fuan gadawodd yr Ieithoedd Dwyreiniol am y Gyfraith. Yn 1847 ac efe yn 19 oed aeth i Brif Athrofa St. Petersburg ; dinas a enynodd ei frwdfrydedd yn aruthr ar y dechreu ; brwdfrydedd a oerodd yn fuan.

Yn fuan eto, ail-ddechreuodd gyda hap-chwareu a phob afradlonedd ; ac yn mhen tri mis penderfynodd ymuno â'r fyddin.

Er mai efrydydd amrwd oedd ; eto yr oedd yn ddarllenwr di-ymatal, a noda yn ei ddyddiadur y llyfrau adawodd fwyaf o ddylanwad arno. Yn mysg y llyfrau hyn yr oedd y Beibl, yn enwedig

Y Bregeth ar y Mynydd ;

David Copperfield ; a gweithiau Jean

Jacques Rousseau—yr ysgrifenydd mawr agorodd y ffordd i'r Chwyldroad Ffrengig. Yfodd yn helaeth o efengyl "Dychweliad at Natur" Rousseau; yn wir d'wed ei fod un amser yn addoli yr ysgrifenydd mawr o Geneva; ac mae'n ddilys genyf mai "Cyffesiadau Rousseau" a'i symbylodd i ysgrifenu cynifer o gyfrinion ei fywyd ei hun.

Nis gellir maddeu i Tolstoy ei fuchedd afradlon; ond gellir ei esponio yn ngoleuni y ffaith mai bywyd anfoesol i'r eithaf arweinid gan uchelwyr ei wlad yn amser ei ieuenctyd. Yn wir calonogid ef yn fynych gan ei fodryb yn ei ramantau anghyfreithlawn yn mysg bonedd y ddinas.

Ond, fel y mae'n naturiol i ddyn sydd a'i ddelfryd a'i weithredoedd mor anhebyg, dilynai storm o edifeirwch bob amser yn ol yspaid o grwydro oddiar lwybrau rhinwedd. Ni byddai byth fel Burns a Byron, a Turgenief yn ymffrostio yn ei fuddugoliaethau cariadol; ac y mae'n amlwg ei fod ar brydiau yn ymladd yn galed yn erbyn ei anian lygredig. Yn ei ddyddiadur deuwn o hyd i benderfyniadau fel y canlyn:—

1.—I gyflawni pob gwaith y penderfynaf ei wneud, er gwaethaf pob rhwystr.

2.—Peidio byth edrych mewn llyfr am yr hyn fyddaf wedi anghofio, ond ceisio ar fy ngoreu ei ddwyn ar gof.

3.—Penderfynu gwneud i fy meddwl bob amser weithio a'i holl rym.

4.—Peidio bod a chywilydd genyf ofyn i neb gadw rhag fy rhwystro yn fy ngwaith.

5.—Astudio cyfraith, meddyginiaeth, banes, rhifyddeg, cerddoriaeth, arluniaeth, gwyddoniaeth, daearyddiaeth, ystadegaeth, Ffrangeg, Ellmyneg, Rwssaeg, Saesnaeg, Eidalaeg, a Lladin.

6.—Ysgrifenu traethodau ar bob pwnc fyddwyf yn fyfyrio.

Yn ystod ei gyfnod athrofaol, diflanodd ei gredoau a'i ymarferion crefyddol; peidiodd myned i'r eglwys; ond ni wadai fodolaeth Duw. Yr unig ffydd a broffesai ydoedd hunan-berffeithiad: yn feddyliol ac yn gorfforol. O 1848 i 1851, hyny yw o'r ugain i'r tair-ar-hugain bu fyw yn beryglus iawn: beunydd ar ddibyn dinystr moesol a chorfforol; ac oni bai am daith ffodus i fynyddau'r Caucasus gallasai fod wedi myned i ddistryw hollol.

Yr oedd wedi blino ar fywyd y ddinas, ac yn dioddef canlyniadau naturiol ei arferion afrad; a chafodd yn mynyddau heulog y Deheu lonyddwch i'w enaid tymhestlog. Llwyr swynwyd ef gan y bywyd newydd a dieithr; ac ymunodd gydag eiddgarwch yn ngwaith ac arferion brodorion y wlad. Meddyliodd yn aml roddi heibio bobpeth arall, ymuno a'r Cossacks, prynu bwthyn a phriodi un o ferched y mynyddau—ond dywedodd llais wrtho am oedi, a pheidio penderfynu eto. Llesteiriwyd ef gan y meddwl mai

MEWN HUNANABERTH Y MAE DEDWYDDWCH;

ac ofnai na fedrai aberthu digon er mwyn yr eneth wledig. Fel y dywed ef ei hun, chwiliai beunydd am achlysur i aberthu ei hun er mwyn eraill, ond ni ddaeth y cyfle. Dyna ddywed ef ei hun; ond yn ol barn allanol, os y gwir raid fynegi, ni fynnai mo'r eneth y creadur hyll! Ni fedrai ef, fel un o'r Cossacks bywiog a heinyf, ddwyn defaid, bloeddio caneuon, lladd dynion, a dringo i ffenestr ty ei gariad pan yn feddw, heb feddwl am gwestiynau dyfnion bodolaeth.

Er hyny ymddengys ei fod ar droion yn cael ei feddianu gan wir yspryd hunan-aberth, ac yn oriau anobaith chwiliai am ddedwyddwch, neu tybiai y dylai dedwyddwch gael ei chwilio, yn nedwyddwch ereill.

Cawn hefyd, hyd yn oed yn yr amser hwn o'i fywyd, fod yspryd gwrth-filwrol yn dadblygu ynddo; yspryd oedd i'w beri nes yn mlaen i fabwysiadu efengyl y Bregeth ar y Mynydd yn llythrenol; yn enwedig y gorchymyn "Na wrthwynebwch ddrwg." Ond yn 1853, pan yn 28 oed, cawn ef yn ymuno a byddin y

Crimea. Meddianwyd ef gan y dwymyn ryfel mor llwyr a neb o'i gydwladwyr ; ac anghofiodd, am yspaid, ei olygiadau gwrth-filwrol.

Nid ymddengys ddarfod iddo fod yn nghanol yr ymladd ei hun ; er hyny cafodd yr argraffiadau hyny a'i galluogodd i boitreadu y gwarchae byth-gofiadwy hwnw fu ar Sevastopol. Drwy ei *Fraslunian Milwrol* y daeth gyntaf i sylw fel llenor, a daeth ei enw, ac efe eto ond 28 oed, yn adnabyddus drwy'r oll o Rwssia. Yn y llyfr hwn, portreadir agwedd fewnol rhyfel, meddwl a theimlad y milwr dan y bedydd tân, gyda'r fath fanylder treiddiol, a'r fath angerddoldeb darluniadol, fel yr ystyrir Sevastopol heddyw yn un o'r desgrifiadau mwyaf nerthol o ryfel a ysgrifenwyd erioed.

Dechreua'r hanes yn llawn gobaith a brwdfrydedd gwladgarol ; ond fel yr â'r ddrama yn ei blaen, gyda'r alanas, a'r oerni a'r newyn ; a'r clefydau a'r ystormydd, ac ocheneidiau'r clwyfedig ; a miloedd o ddewrion yn cael eu haberthu yn ddiamcan ; mae rhyfel eto yn myned yn gâs gan ei galon, ac ar gwymp Sevastapol cawn ef yn erfyn am ei ryddhau o'r fyddin.

Y mae'r portread nerthol hwn o echryslonrwydd rhyfel, a hyny o safbwynt y milwr cyffredin, eisioes yn arddangos dadblygiad

YR YSPRYD GWERIN-GAROL

yn Tolstoy, ac yn cyhoeddi'r galluoedd hyny oedd i synu'r byd gwareiddiedig pan gyhoeddwyd ei nofel fawr ar *Heddwch a Rhyfel* yn 1860.

Am y tair blynedd nesaf, o 28 i 31 oed, bu eto fyw mewn oferedd hollol ; weithiau yn St. Petersburg, bryd arall yn Moscow. Fel hyn y dywed Turgenief, y llenor mawr arall o Rwssia am dano :—"Daeth yn ol yma o Sevastopol ; mae yn aros yn y ty, ac yn byw yn ofer iawn. Gwirod, cwmni têg, a chardiau drwy'r nos—ac yna cysgu fel corff hyd ddau yn y prydnawn. Ar y cyntaf bum yn ceisio rhoi pren rhwystr yn ei olwyn, ond ofer oedd y gwaith, ac yn awr eled i ddiafol y modd y myno."

Yn ei oriau edifeiriol, gwel yn amlwg erbyn hyn mai priodas yw ei unig obaith am iechydwriaeth foesol. Bu yn edrych o gwmpas am gymhares addas ; ond ni adeiledir priodas, mwy na Rhufain, mewn dydd. A thra yn chwilio am nodded gymhwys, try ei law at gadw ysgol yn mysg y gwladwyr anllythrenog a lafurient ar feusydd ei ystad yn Yashnaya Polyana.

(I'w barhau).

YMWELIAD A CANADA A'R UNOL DALAETHAU AMERICA.

Yn y flwyddyn 1907 cefais y fraint o dalu ymweliad â'r Amerig a threulio yn agos i dri mis yno. Yr oedd genyf amryw amcanion mewn golwg, megys cael ychydig seibiant meddyliol, gweled y wlad, ymweled â pherthynasau, a gwneud cydnabyddiaeth â'm brodyr Undodaidd yn nghyfarfodydd pwysig

Y CYNGRAIR CYDGENEDLAETHOL

yn Boston yn mis Medi. Cyrhaeddais yr oll o'r amcanion hyn a chefais fy moddio yn fawr. Nid oeddwn erioed o'r blaen wedi bod yn nghyf-

eiriad machlud haul yn mhellach na'r Iwerddon ; ac felly yr oedd y daith yn hollol newydd i mi. Peth mawr ydyw croesi Mor y Werydd hyd yn nod yn ein dyddiau ni, ond beth ydoedd yn 1620 pan hwyliodd y Mayflower drosto gyda'i llwyth o garwyr rhyddid crefyddol! Cychwynais o Lerpwl ar fwrdd y *triple turbine* agerlong ardderch, y Virginian, ar y 19eg o Orphenaf, mewn tywydd tawel a heulog. Yr oedd ar y bwrdd oddeutu cymaint arall o deithwyr ag yw poblogaeth gyfan un dref yn Sir Aberteifi ond Aberystwyth. Cychwynasom yn yr hwyr ac felly nid oedd llawer o ddiben aros ar lawr i weled dechreuad y daith, yr hon yn gyntaf oll oedd yn nghyfeiriad rhan ogleddol yr Iwerddon. Yn ol fy arfer ar ddechreu mordaith gorweddais am dipyn ar wastad fy nghefn, a digon tebyg i hyny fy nghadw rhag cael clefyd y môr. Er hyny codais mewn pryd i weled Ynys Manaw a'i Llo fel y gelwir yr ynys fechan gerllaw iddi. Mae Manaw yn ddyddorol i'r Cymro am fod y brodorion o'r un genedl Geltaidd ag ef, ac eto yn siarad eu hen iaith mewn lleoedd gwledig. Pobl dalentog ydyw'r Manawyson, ac y maent wedi bod yn mwynhau anibyniaeth lywodraethol drwy'r canrifoedd. Un o neillduolion yr ynys yw fod y cathod brodorol yn gwta. Dywedodd bachgenyn wrthyf unwaith nad oedd yn hoff iawn o'r cathod di-gynffon yma, am yr ymddangosent iddo ef fel pe baent heb eu gorphen. "*They don't look finished*," meddai. Aethom allan i'r Werydd llydan drwy gulfor St. Padrig, a'r tir olaf i'w weled yn yr Iwerddon yw Tory Island, ar yr hon y mae goleudy ardderchog. Wedi gweled

YR OLAF O'R YNYS WERDD

am y tro hwn aeth pawb i'w gorweddfa am y nos, a boreu dranoeth gwnaethom sylweddoli pa le yr oeddem. Wedi myned i'n hystafelloedd cawsom weled pwy oedd i fod ein cymdeithion cwsg yn ystod y fordaith. Yn fy ystafell i yr oedd dau wely, un uwchben y llall yn gywir fel mae *shelves* ar y dresser. Gwelyau braf oeddynt, ac esmwyth dros ben. Gan nad ydwyf yn ddyn ysgafn mewn unrhyw ystyr, dewisais y gwely isaf gan nad oeddwn yn siwr y gallaswn ddringo i'r llall heb gynnorthwy ysgol. Gan fod fy nghyd-deithiwr yn ddyn tàl, ystwyth, trodd y drefn allan yn berffaith foddhaol. Mae pob peth yn gyfleus yn yr ystafelloedd gwely yma. Mewn lle amlwg uwchben mae *life buoys* i achub bywydau mewn cyfyngder.

Yn y *first cabin* daeth braidd yr oll o'r teithwyr i'w boreufwyd y boreu cyntaf, diolch i'r tywydd hyfryd. Yr oedd rhai seddau gweigion, mae yn wir, yn arwyddo fod rhywrai yn gorfod gorphwys. Wrth ein boreufwyd cyntaf ar y bwrdd y gwnawn gyfeillach a'n cyd-deithwyr. Wrth bob bwrdd gosodir rhyw haner dwsin, y rhai ydynt i gyd-fwyta am y gweddill o'r daith. Y bobl hyn yw ein cyfeillion cyntaf ar y bwrdd, ond yn raddol eanga ein cylch. Yn mhlith y teithwyr yr oedd amryw genhedloedd a rhai o bendefigion Prydain Fawr. Pendefigion neu beidio, yr oedd pawb yn gwneud eu goreu i sirioli eraill.

Nid oes gan neb lawer o ddirnadaeth, os nad ydynt wedi bod ar fordaith, beth ydyw llong fawr ymfudol y dyddiau hyn. I bawb ar ei bwrdd y mae yn gartref glan a chysurus. I'r rhai sydd yn teithio yn y dosbarth blaenaf, mae yn balas nofiadwy ardderchog, lle mae pob peth wedi ei drefnu er eu cysur. Mae yr ystafelloedd yn eang a destlus, yr ymborth o'r goreu, y gweision yn ewyllysgar, a'r holl le yn unol a'r chwaeth uchaf. Mae cyfleusderau i ysgrifenu, ac y mae llyfrgell ar y bwrdd, o'r hon y gellir cael llyfrau allan am ychydig dâl. Mae y swyddogion o'r cadben i lawr yn foesgar a boneddigaidd, ac yn barod i'n goleuo yn nghylch y fordaith. Pan yn brysio dros y Werydd tua'r ail ddydd o'r fordaith, teimlwn

UNIGEDD Y MOR—

dwr, dwr, dwr yn mhob cyfeiriad, a

dim ond trwch gwaelod y llong rhyngom a thragwyddoldeb. Ond felly mae hefyd ar fordaith bywyd. Nid yw yr haen rhyngom a'r byd arall ond teneu iawn, a dywedwn mewn llawn hyder ffydd—

Mae'n hyfryd meddwl, Arglwydd Ior,
Wrth groesi'r maith dymhestlog fôr
Fod rhyngom ni a'r dyfnder mawr
Law gref ein Tad bob mynyd awr.

Fel hyn yr hwyliwn fyth yn llon
Heb ofni rhwysg y nwyfus don ;
Da gwyddom pan ddyrchafwn gri
Bydd breichiau'n Tad am danom ni.

Torir unigedd yr olygfa ychydig gan adar y môr, y gwylanod, gan mwyaf. Priodol y canodd un o feirdd Ceredigion :—

"Ha wylan y mor heli,—
Y nwyf dòn yw'th gartref di."

Ymddengys mor gartrefol fil o filltiroedd o dir ag y gwna ar draeth Aberaeron. Pe bai'r Salmydd yn gyfarwydd â'r wylan, digon tebyg yr hiraethai am ei hedyn i'w ddwyn rywle yn mhell o afael ei elynion. Ond i frysio ar y daith. Bu dwy whâl mor garedig ag ymddangos i ni. Tebyg mai cenhadon, neu fath o *friendly pickets* oedd y rhai hyn wedi eu hanfon gan ysgolion o forfilod y rhai a ymguddient o dan wyneb y dwr, i weled beth oedd y cynhwrf. Am ryw reswm gelwir nifer o forfilod yn *School of Whales* yn yr iaith Saesneg, er nad ymddengys eu bod o dan unrhyw ddysgyblaeth neillduol. Wrth weled y creaduriaid mawreddog hyn yn ymhyfrydu mewn bywyd nis gallwn lai na meddwl am y geiriau—"Yno y mae y lefiathan yr hwn a luniaist i chwarae ynddo." Tebyg iawn y bydd fy narllenwyr ieuainc yn synu fod creadur mor fawr yn medru chwarae. Gwelsom hefyd ddau fynydd iâ yn y pellder yn disgleirio fel yr haul. A chyfrif oddi wrth yr hyn oedd o honynt allan o'r dwr yr oeddynt oddeutu 2,250 o droedfeddi o dryfesur. Pe delai llong i wrthdarawiad â hwynt byddai diwedd am dani. Dyna un o beryglon parhaus Gogledd Mor y Werydd.

Dydd ar ol dydd yr oedd y gyfeillach yn dyfod yn fwy hyfryd i bawb ar y bwrdd. Yr oedd yn bleser cyfarfod â'n cydnabod bob rhan o'r dydd. Beth ydyw'r elfen ddirgel sydd yn y wedd hon yn dwyn eneidiau at eu gilydd, a gwneud yr estron yn gâr mynwesol? Dywed Emerson mai

ELFEN DDWYFOL YDYW,

sydd yn trigo yn barod yn yr enaid. Drwy ddwyfol ddeddf atyniad dygir eneidiau at eu gilydd yn rhwymyn cyfeillgarwch. Ar eu cyfarfyddiad mae y dwyfol mewn un enaid yn darganfod y dwyfol yn y llall. Felly, nid oes wir a pharhaol gyfeillgarwch ond yn mhlith y rhinweddol. Dywed un o'r awduron Lladin fod cyfeillgarwch yn golygu caru a chasau yr un pethau ; ond credaf fod Emerson yn fwy agos i'r gwirionedd. Ar y fordaith gwnaethum gydnabyddiaeth â gwr ieuanc yr hwn oedd newydd orphen ei efrydiaeth yn Caergrawnt, a chyd-deithiasom lawer wedi glanio a buom o help a chysur nid bychan i'n gilydd. Wrth yr un bwrdd a ni eisteddai Americanwr tra ffraeth a diwylliedig, a daeth ef a minau yn gyfeillion lled agos. Cyn glanio cyffesodd wrthyf yn gyfrinachol iawn mai efe oedd penaeth yr Anarchiaid yn Ewrop ac America, ond nad oedd raid i mi ddychrynu gan nad oedd ei barti ef yn cydfyned o gwbl â'r lladd a'r bradychu a wnaed yn enw Anarchiaeth. Prif bwynt ei barti ef oedd na ddylai fod gorfodaeth mewn dim. Dylai pob peth gael ei wneud ar yr egwyddor o wirfoddoldeb. Cefais allan ei fod wedi cael ei ddwyn i fyny yn Undodwr, ac yr oedd yn amlwg fod crefydd ei fam yn parhau i'w arwain. Bu yn garedig iawn i mi pan ar ymweliad â New York, lle y trigianai. Cyfarfyddais hefyd ag aelodau o fudiad newydd y *Christian Science*, ac yr oeddynt yn awyddus iawn i egluro eu meddwl i bawb a wrandaw-

ent. Iawn yw profi pob peth, ac yna dal yr hyn sydd *dda;* a'r peth goreu yn nghylch yr enwad hwn yw eu bod yn credu fod dedwyddwch yn gynwysedig mewn perffaith gydgordiad ag ewyllys Duw. Dyna hefyd, tybiaf, ydyw dy grefydd ymarferol di, hynaws ddarllenydd YR YMOFYNYDD. Hyfryd iawn oedd trin pynciau fel hyn ar ganol y Werydd llydan yr hwn a'n cylchynai fel

ANHERFYNOL GARIAD DUW.

Yn mhen oddeutu pedwar diwrnod a haner, daethom i olwg tir, a mawr oedd y llawenydd. Yn awr yr ydym yn agoshau yn gyflym at ynys Belle Isle, y tir cyntaf welir wedi gadael yr Iwerddon. Yna awn i mewn i gulfor Belle Isle yr hwn sydd yn amrywio o ddeuddeg i ugain militir o led. Ar y llaw chwith mae ynys goediog, ffrwythlon a hardd Newfoundland, gyda'i gelltydd o goed bythol wyrdd, y rhai a gyrhaeddant hyd lan y dwr. Mae yr ynys hon oddeutu un ran o chwech yn fwy na'r Iwerddon. Ar y dde mae arfordir anghysbell a llwm Labrador—gwlad ag sydd yn ffinio â "Greenland oer, fynyddig." Ar yr olwg gyntaf mae yn rhyfeddod fod pobl yn hoffi trigo yno tra mae gwastadedd ffrwythlon eto yn Canada heb neb i'w wrteithio. Esquimeaux yw trigolion brodorol Labrabor, a hoffach ganddynt ymladd â'r elfenau tra yn pysgota a hela, nag ymsefydlu yn dawel i drin y tir. Maent wedi cael eu troi at Gristionogaeth gan genhadon y Morafiaid o Germany, y rhai wnant eu goreu i'w dyrchafu mewn gwareiddiad. Yn mhen tipyn collwn olwg ar dir, ac yr ydym yn awr yn Gulf of St. Lawrence; ond cyn hir daw ynys Anticosti yr hon sydd saith ugain milltir o hyd, i'r golwg. Perthyn yr holl ynys i Mr. Menier, y gwneuthurwr chocolate enwog o Paris, a cheidw yma lawer iawn o weithwyr. Y mae wedi gwneud y lle yn hardd iawn drwy wrteithio'r tir a gofalu yn briodol am y coedwigoedd. Byddai yn ddymunol pe bai mwy o'r yspryd hwn yn cael ei arddangos yn y wlad hon. Mae Prydain yn parhau i edrych yn hardd, yn fynych, er gwaethaf dyn; ond O! 'r fath anrhaith wneir ar harddwch creadigaeth Duw! Diflana Anticosti o'n golwg ond gwelwn dir yn fuan eto. O'r diwedd cyrhaeddwn enau yr afon fawreddog St. Lawrence yr hon sydd 2,100 o filltiroedd o hyd, ac yn y fan hon mae yn agos yn 32 milltir o led. Er pan welsom Belle Isle yr ydym wedi teithio yn agos iawn i chwe' chant o filltiroedd.

Yr ydym yn brysio o ddifrif tuag at Quebec yr hon ddinas sydd 2,635 o filltiroedd o Lerpwl. Am ran o'r ffordd ar yr aswy mae tiriogaeth hardd New Brunswick yn dyfod hyd lan y dwr, ac ar y dde mae tiriogaeth Quebec. Ar y dde pasiwn enau un o afonydd dyfnaf y byd, sef y Sequenay yn yr hon yr heigia niferoedd o forfilod gwynion y rhai ydynt greaduriaid tra ofnus a gwyllt. Ni chawsom gipolwg ar un o honynt. Mae y St. Lawrence yn culhau fel yr awr yn mlaen, a chyferbyn a Quebec nid yw ond oddeutu milltir o led.

Pasiodd ein hagerlong o dan y bont ardderchog oedd ar gael ei gorphen ar y pryd, ond yr hon a gwympodd ychydig ddiwrnodau yn ddiweddarach gan fyned a phedwar ugain o weithwyr diwyd gyda hi i'w bedd heb y rhybudd lleiaf.

Wele ni, o'r diwedd, yn barod i lanio yn Quebec—hyny yw, y sawl o honom a ddewisent wneud hyny. Aethai y gweddill yn mlaen i Montreal. Ni ddigwyddodd dim neillduol ar y fordaith ond fod i fachgen braf gael ei eni i un fam. Nid oeddem wedi bod heb glywed rhywbeth am y byd allanol, gan fod pellebyr Marconi ar waith genym yn barhaus. Wrth syllu ar ddinas Quebec a'i sefyllfa ramantus am y tro cyntaf, nis gallwn lai na sibrwd y geiriau—

"Wel, dyma olygfa lwys—
Rhyw hudol ail baradwys."

Ond rhaid i mi ymatal gan y bwriadaf roddi desgrifiad o'r lle yn fy llith nesaf.

E. CEREDIG JONES.

(*I'w barhau.*)

PENILLION ER COF AM Y DIWEDDAR GADBEN WILLIAM DAVIES, RHYDOWEN-FACH.

Buddugol yn Mwlchyfadfa Ionawr, 1912.

I.

FRY uwch moel y Fadfa, tra yr ehedydd chwardd,
Dagrau serch a hiraeth leithiant rudd y bardd ;
Ond fel ar y gwlithyn gwelir lliwiau'r wawr,
Neu ar ael y gawod ddelw'r huan mawr,
Gwelaf ar bob deigryn liw-gar riniau gwr
Fu o fewn ein hardal gynt yn uchel dwr,—
Gwelaf ar bob deigryn ddarlun llawn o swyn,
Darlun o gymeriad CADBEN DAVIES fwyn.

II.

Anwyl oedd gan ddynion—gwenai arno'r Nef,
Cadben yn holl gylchoedd bywyd ydoedd ef ;
Gadben mewn morwriaeth ! Boreu gwyn ei ddydd
Dreuliodd hyd yr eigion a'u hawelon rhydd ;
Ar hyd lwybr y moroedd, dyfal fu'n ei swydd,—
Haeddiant a agorodd iddo ddorau llwydd.
Yna, mewn anrhydedd, yn ei gynar nawn,
Rhoi i'w wlad a'i grefydd wnaeth ei ddisglaer ddawn.

III.

Gadben mewn hynawsedd ! Ei serchogrwydd llon
Darddai o ffynonau'r cariad dan ei fron ;
Heulog gan fwyneidd-dra oedd ei wyneb hael,
Ac eisteddai urddas ar ei lydan ael ;
Tal-gryf oedd a chydnerth, ysgafn ar ei droed
Pan ei wàr a grymai o dan bwysau oed ;
Er fod ôd y gauaf wedi gwynu'i wedd,
Calon ieuanc ynddo gurai hyd ei fedd.

IV.

Gadben mewn haelioni ! Llety roddai ef
Ym mhabellau'i enaid i genhadau'r Nef ;
Fel y rhydd y ganwyll oleuedig wen
Wawl i bawb o'i hamgylch nes y llysg i ben,—
Yntau'n rhydd gyflawnai olud byd yn was
I alwadau tostur ac amcanion gras ;
Angen dan ei *haelder* doddai megis ia
O dan anadl dyner y ddeheuol chwa.

V.

Gadben mewn Rhyddfrydiaeth ! Blaenaf yn y gad
Oedd dros ryddid crefydd ac iawnderau gwlad ;
Gwerin gwlad a'i cododd ef i seddau bri,—
Yntau ni arbedai ddim i'w diffyn hi.
Ffyddlon i egwyddor fawr tadoldeb Duw,—
Brodyr iddo welai 'mhawb o ddynolryw.
Un o hyd ei grefydd—Sul a diwrnod gwaith ;
Eofn gawr Undodol fu hyd ben ei daith.

VI.

Gadben mewn duwioledd ! Gwneud i ereill les,
Dwyn y Nefol Deyrnas beth o hyd yn nes,—
Dyna nôd ei enaid hyd y fàn a'r awr
Gwysiwyd ef yn sydyn fry o wlad y llawr.
O garedig wron ! Yn y Bwlch a'r Llwyn,
Hir o'i ol yr erys cofion melus mwyn ;
A thra 'mro y Glettwr ffyna crefydd rydd,
Enw CADBEN DAVIES yno'n anwyl fydd.

Cwrtnewydd. CLEDLYN.

SOCRATES,—A FU Y FATH DDYN?

Dyddorol iawn yw dau draethawd Dr. Priestley (1733-1804) ar "Socrates and Jesus Compared," er eu bod ar lawer ystyr *out of date* heddyw. Nid oes ynddynt ddim fodd bynag sydd yn awgrymu un amheuaeth yn nghylch bodolaeth y ddau bersonoliaeth—y ddau yn gymeriadau ar eu penau eu hunain, ac yn ardderchog o ran purdeb eu moes a chrefyddolder eu hyspryd. I Plato a Xenophon, Aristoteles ac Aristophanes yr ydym yn ddyledus yn benaf am yr hyn a wyddom am Socrates. Darllenodd Dr. Priestley y rhai hyn, a ffurfiodd feddwl uchel am gymeriad moesol Socrates, fel y darfu iddo ei osod yn ymyl Iesu, os nad yn gyfartal iddo, o leiaf nid yn mhell ar ei ol.

Heddyw, er gwaethaf y lle eang a pharchus y mae'r ddau yn ei lanw yn hanes y byd, cawn ambell i un yn amheu bodolaeth y naill a'r llall. Un o'r pethau rhyfeddaf y gwyddom am dano yw dull gweithrediad y meddwl dynol. Rhy anhawdd yw cyfrif am y gwahanol a'r amrywiol linellau rhyfedd—a gawn ni ddywedyd direswm?—sydd yn bosibl iddo redeg ar hyd iddynt. Y mae yna anghysonderau mae'n debyg yn yr hanesion sydd yn traethu am danynt ; ond beth am hyny? Y mae yna anghysonderau yn fynych yn yr hanesion yn mherthynas i ddygwyddiadau ein dydd ein hunain, ac eto fel rheol fe'u derbynir, ac fe gredir eu bod o ran sylwedd yn gywir. Nid oes neb mor fyrbwyll a rhedeg i'r casgliad na fodolodd y personau erioed i'r rhai y priodolir y dygwyddiadau. Fe welir y byddai hyny yn

wrthun. Blynyddoedd bodolaeth Socrates oedd o 470 hyd 400 cyn Crist. Cyfrifir ef fel y dysgleiriaf a'r enwocaf o athronwyr Groeg. Sefydlodd ysgol newydd i'r hon y perthynai prif athronwyr yr oes. Methodd ddianc rhag tafod enllib. Condemniwyd ef i farw. Galarai ei wraig am ei fod wedi ei gondemnio yn anghyfiawn ; i'r hyn yr atebodd yntau, "A fyddai'n well genyt fod fy nghondemniad yn gyfiawn ?" Proff. A. E. Taylor yw'r gwr sydd newydd gyhoeddi llyfr yn ymdrin a'r pwnc—"A fu erioed y fath ddyn a Socrates ?"

CYFARFODYDD CHWARTEROL Y GYMDEITHAS UNDODAIDD GYMREIG.

Cynhaliwyd cyfarfodydd chwarterol Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru yn Nghaeronen ar ddyddiau Mercher ac Iau, Mawrth 20 a 21, pryd yr oedd yn bresenol y Parchn. R. J. Jones, M.A., Aberdar ; John Davies, Alltyplacca ; R. C. Jones, gweinidog y lle ; David Evans, Cribyn ; T. Arthur Thomas, Llandyssul ; E. Gwilym Evans, B.A., Dukinfield (Llywydd y Gymdeithas); Lewis Williams, Rhydygwin ; E. O. Jenkins, Llwyn ; James Glynne Davies, Aberdar ; J. Cararra Davies, Cefncoedcymmer ; y myfyrwyr D. Cellan Evans a Ben Davies, yn nghyd a llawer iawn o gynrychiolwyr o eglwysi y cylch. Bu y tywydd drycin yn anffafriol i gael cynulleidfaoedd mawrion, er hyny gwelwyd amryw wedi dod o bellder ffordd drwy erwinder y tywydd.

Nos Fercher, cafwyd dwy bregeth gan weinidogion H.D.C. Aberdar a'r Cefn, a gwnaeth y ddau argraff dda fod dyfodol defnyddiol yn aros y ddau. Dechreuwyd y gwasanaeth hwn gan Mr. Ben Davies. Boreu dydd Iau dechreuwyd y gwasanaeth gan y Parch. David Evans, Cribyn, a phregethwyd yn eu dull arferol gan y Parchn. Arthur Thomas a Lewis Williams. Yn y prydnawn aethpwyd drwy ranau defosiynol y gwasanaeth gan y Parch. John Davies, Alltyplacca, a phregethwyd gan y pregethwr apwyntiedig y Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdar. Gobeithiwn weled y bregeth ardderchog hon wedi ei chyhoeddi yn YR YMOFYNYDD ac hefyd dylai gael ei dosbarthu yn bamphledyn ar hyd a lled y wlad. Digon ydyw dweyd fod Mr. Jones yn ei hwyliau goreu. Yn yr hwyr pregethwyd gan y Parchn. John Davies ac E. O. Jenkins a chafwyd diweddglo hapus i gyfres o gyfarfodydd ar lawer ystyr fu yn llwyddianus. Ar ddiwedd y gwasanaeth hwyrol gwnaeth Ysgrifenydd y Gymdeithas yn nghyd a Mr. Jones, Aberdar, gyflwyno diolchgarwch gwresog yr ymwelwyr i bobl garedig Caeronen am y derbyniad cynes roddwyd, a'r darpariaethau lluosog wnaethpwyd er croesawu dieithriaid yn llen a lleyg. Ni fuont ar ol mewn dim. Gwnaeth y gweinidog yntau gyflwyno ei ddiolchgarwch i bawb gyfranodd tuagat lwyddiant y cyrddau, a dymunodd ar iddynt fod o fendith i'r Eglwys, y cylch a'r ardal.

Y PWYLLGOR.

Cynhaliwyd y Pwyllgor yn Ngaeronen boreu Iau, yr 21ain, pryd yr oedd y Llywydd, y Parch. E. Gwilym Evans, B.A., Dukinfield, yn y gadair. Yr oedd yn bresenol amryw weinidogion a chynrychiolwyr. Ar ol darllen a chadarnhau cofnodion y

Pwyllgor diweddaf, penderfynwyd—(1) Fod y Parch. R. J. Jones, M.A. i fod yn gynrychiolydd y Gymdeithas yn nghyfarfodydd blynyddol y Gymdeithas Undodaidd yn Llundain a'r Parch. James Glynne Davies i fod yn gynrychiolydd i'r *Triennial Conference* gynhelir yn Birmingham. (2) Fod y Llywydd i fod yn aelod o Bwyllgor y *Triennial Conference* am y tair blynedd nesaf, a phasiwyd danfon enw yr Ysgrifenydd i gynrychioli eglwysi y Cyfundeb ar yr un Pwyllgor. (3) Fod casgliad blynyddol y Gymdeithas i gael ei wneud yn yr eglwysi y Sul cyntaf yn Mai neu y Sul cyfleus agosaf i hyny. (4) Pasiwyd cynal dau gyfarfod o'r Gymdeithas yn ystod y flwyddyn—un tua adeg y Pasc a'r llall, y cwrdd blynyddol, yn niwedd Mehefin. (5) Fod y cwrdd blynyddol nesaf i gael ei gynal yn Mwlchyfadfa, y gweinidog a'r eglwys i wneud y trefniadau arferol.

PRIODAS.

Yn y Graig, boreu Sul, Chwef. 11, o flaen y Cofrestrydd—Mr. Noah Lewis Davies—a'r Parch. Lewis Morgan, Clydach-ar-dawe, unwyd mewn glân briodas Mr. David W. Bowen a Miss Gwenllian Davies, y ddau o Trebanos.

Doed pob hedd a mwyniant,
I'ch aelwyd chwi ;
Gwened heulwen llwyddiant
I'ch cartref chwi.

MARWGOFION.

RHAGFYR 1, 1911, yn 8 mis oed, Evan, mebyn prydferth Llewelyn a Margaret Jane Thomas, Gellinudduchaf, Pontardawe. Rieni ieuainc, er i chwi edrych yn mlaen, a dyfalu, a gobeithio, ac ofni, a phryderu llawer, am ddyfodol eich Ieuan gwyn, —mynodd ef droi yn ei ol, i gerdded ar hyd llwybrau blodeuog yr anweledig cyn gwneud blwyddyn o ymddangosiad ar eich llawr anedd. Claddwyd y dydd Mawrth canlynol wrth gapel Gellionen, a gweinyddwyd gan Mr. Lewis Morgan, Clydach-ar-dawe.

Blodyn hawddgar,
Ar yr aelwyd,
Ond yn gynar
Adgymerwyd ;
Fe ddangosodd
Ei brydferthwch,
Yna hedodd
I ddedwyddwch.

CHWEFROR 9, Mrs. Margaret Jones, anwyl briod Mr. David Jones, Britannia Stores, Bryn Road, Llanbedr, yn 61 mlwydd oed. Bu'n gwaelu am amser maith ond ar y dydd uchod ehododd ei hyspryd at Dduw yr hwn a'i rhoes. Treuliodd Mrs. Jones ran fawr o'i hoes fel ysgolfeistres o dan y Bwrdd Ysgol yn Llanbedr a'r ardal, ac yr oedd yn hynod gymeradwy fel y cyfryw. Bu hefyd yn wraig ffyddlon ac yn fam dyner. Gadawodd mewn galar dwys ar ei hol briod ac un mab heblaw perthynasau ereill. Claddwyd ei

gweddillion yn mynwent Eglwys y Plwyf, a gwasanaethwyd gan yr offeiriad. Drwg genym na byddai gair am ei marwolaeth wedi ymddangos yn gynt yn YR YMOFYNYDD.

MAWRTH 5, yn Abercerdinen, ger Capelygroes, bu farw John Richards, 39, Penybank Road, Ammanford, yn 31 oed. Gadawodd briod, tri o blant, un chwaer, a pherthynasau agos ereill i alaru ar ei ol. Cymerodd y gladdedigaeth le y dydd Gwener canlynol yn Nghapelygroes, pryd y pregethwyd yn y Capel gan y Parch. J. Griffiths (B.), Ammanford, yn cael ei gynorthwyo yn y gwasanaeth gan y Parchn. E. Glyn Edwards a D.Evans.

MAWRTH 5, Margaret Evans, Penrhiw, Pontshaen, yn 83 oed. Claddwyd y Gwener canlynol yn Llwynrhydowen a gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins. Cafodd yr ymadawedig fel y gwelir flynyddoedd meithion i fyw yn ein byd, ond bu ei byd hi yn fyd cyfyngedig iawn drwy iddi golli ei golygon yn rhanol pan yn gymharol ieuanc ac yn hollol flynyddoedd cyn iddi ffarwelio. Ers blynyddoedd nid oedd yn adnabyddus ond i'w chyfeillion a'i chymydogion agosaf. Yr aelwyd a'r buarth oedd ei byd hi, ac yma, er yn ddall, gwnaeth ei rhan yn ffyddlon. Nid oedd ball ar ei hymadrodd a phleser oedd ganddi adrodd hanes y Llwyn a'i helyntion. Bydded i'w brawd oedranus, a'i mhab, a'r perthynasau eraill adawodd i wel'd ei lle yn wag i alaru'n gymedrol gan gredu y cânt gydgyfarfod eto.

MAWRTH 6, yn 46 mlwydd oed, Jane, gwraig Gwilym Evans, Craigglyn-meirch, ger Pontardawe. Cafodd ein chwaer ymadawedig gystudd maith a chaled, a da genym allu dyweyd, iddi ddioddef yr oll yn dawel a boddlongar. Mae tad gweddw a phump o blant (yr oll bron wedi eu codi i fyny) wedi eu gadael yn yr anialwch i hiraethu ar ol eu mam anwyl. Y Sadwrn canlynol, cludwyd ei "thy o glai" i gladdfa Gellionen, a gweinyddodd y Parch. D. G. Rees (ein gweinidog apwyntiedig) yn dlws a thyner. Hyderwn y ca'r tad a'r plant nerth eto i ymroi mewn bywyd, er mwyn yr hon fu yn eu hamddiffyn yn mhob tywydd.

Machludodd ei haul wrth gân y gwŷdd
Daeth du-nos i fewn i'r cartref gwŷn ;
Y du-nos sy'n tynu'r sêr i'r llŷn ;
A thry pryderon yn oleu dydd.

MAWRTH 8, yn 52 oed, bu farw David Morgan, Moelfre, Llanbedr. Nid oedd wedi mwynhau iechyd cryf er pan yn ieuanc, a diau fod ei gyfansoddiad wedi ei wanychu yn fawr gan yr anhwylder y dioddefai oddiwrtho. Ond ni ddaeth i feddwl neb o'i berthynasau a'i gyfeillion lai nad oedd iddo lawer o flynyddau eto. Ac achos syndod a siom oedd y newydd ei fod wedi diweddu ei yrfa yn yr oedran cymharol gynar enwir uchod ar ol ychydig ddiwrnodau o gystudd. Perthynai i deulu, amryw genedlaethau o'r hwn fu yn byw yn y Moelfre a'r Waunany, y rhai a berchid yn fawr yn y gymydogaeth, a phrofodd yntau ei hun yn deilwng olynydd iddynt. Bu yn aelod o gynulleidfa Capelygroes er yn ieuanc ; ac yr oedd hefyd er's blynyddau wedi gweithredu fel Trysorydd. Fel aelod bu yn ffyddlon, ac fel swyddog gwnaeth ei waith yn effeithiol. Teimlai ddyddordeb neillduol yn y mudiad i sicrhau tir at y fynwent newydd, a gwnaeth ei ran yn ffyddlon i'w diogelu. Blin yw'r meddwl ei fod ef, o ran ei gorff, wedi ei osod i orphwys yn ei daear mor gynar. Gadawodd ar ei ol mewn galar dwys briod, dau fab, dwy chwaer, a lluaws o berthynasau agos. I hebrwng ei farwol ran i'w dŷ daearol y dydd Mercher canlynol daeth yn nghyd nifer luosog iawn. Pregethwyd yn y tŷ gan y Parch. D. Evans, a chynorthwywyd yn y gwasanaeth gan y Parchn. R. C. Jones ac L. Williams.

MAWRTH 9, Anne, gweddw y diweddar Enoch Evans, Felincrugyrreyr, Talgareg, yn 72 oed. Yn ystod ei misoedd olaf dioddefodd boenau dirfawr, ond syndod mor wrol y daliodd hyd y diwedd, canys gwyddai gystal a neb fod ei dolur yn un ang-

euol ac nid oedd iddi ond amser byr i fyw. Cofus genyf iddi ddyweyd ragor nag unwaith yn fy nghlyw,—"'Rwy'n gwybod na cha i ddim byw yn hir, ond gobeithio na chaf ryw lawer o boenau," a dywedai hyna'n hollol dawel—bron na ddywedwn yn hollol ddidaro. Daeth ei phroffwydoliaeth i ben,—canys cymharol fyr fu ei chystudd—nid felly ei dymuniad canys dioddefodd yn enbyd. Benyw a weithiodd yn galed iawn oedd yr ymadawedig—un ddiwyd, ddarbodus a glanwedd; a bywyd llawn o aberth oedd ei bywyd heb oriau segur ynddo. Gadawodd mewn galar ddeg o blant, nifer liosog o wyrion a pherthynasau eraill. Gobeithio y gwnant sylweddoli mai nid testyn galar yn unig sydd ganddynt, ond testyn diolch hefyd am gael mam mor weithgar a rhadlon. Daeth torf luosog o berthynasau a chyfeillion i'w hangladd y Mercher canlynol pryd y claddwyd yn Llwynrhydowen, ac y gwasanaethyd gan y Parch. E. O. Jenkins.

MAWRTH 15, Mrs. Margaret Davies, New York, Pencarreg, yn 78 mlwydd oed. 'Yr oedd yr ymadawedig yn enedigol o blwyf Llandyssul a hoff oedd ganddi hyd y diwedd daflu ei golwg yn ol ar fore ei bywyd yn y plwyf hwnw. Yr oedd o ran natur yn llawen ei hyspryd, ond bu claddu mab anwyl a thyner o honi allan o'r tŷ tua dwy flynedd yn ol, ac ar ol hyny, merch fechan i'r mab hwnw'n brofedigaethau hytrach rhy lymion iddi'n ei hen ddyddiau i ddal danynt, ac eto dioddefodd yr oll yn bur dawel a dirwgnach. Ond ar bwys yr holl dreialon a'r cyfyngu i'w gwely bron yn llwyr am flynyddau cyrhaeddodd ben ei thaith yn sydyn ac anisgwyliadwy ar y dydd uchod. Gweinyddwyd arni'n dyner, a gofalus a theilwng o honi ei hun, am hir flynyddau gan ei mherch-yn-nghyfraith. Yr oedd yn aelod o eglwys Brondeifi, ac yn ffyddlon iawn i draddodiadau y tadau. Gadawodd mewn galar ar ei hol dri mab ac un ferch, heblaw perthynasau eraill. Claddwyd ei gweddillion yn mynwent Brondeifi, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan weinidog y lle, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. J. Carrara Davies, Cefncoedcymmer.

MANION AC HANESION.

CAPELYGROES. — Cynhaliwyd y *Rehearsal* gyntaf eleni yn y lle uchod ar y 24ain cyfisol. Enw mwy priodol ar y cyfarfod hwn efallai fyddai *prehearsal* (gair wedi ei fathu yn arbenig at yr amgylchiad). Nid oedd y cynulliad yn un lluosog, nid oedd ond ychydig o gerddorion wedi dod yn nghyd, ac nid oedd gwedd lewyrchus ar y canu. Y mae lle i ofnu fod dydd y Gymanfa drosodd — os na ddaw rhyw awel adfywiol yn fuan dros ein cerddorion. Y mae'r arweinwyr—y rhai hynaf o honynt o leiaf—yn gwneud eu goreu, ac ychydig o'r cerddorion. Da chwi, ymysgydwch o'ch difaterwch.

ALLTYPLACA. — Prydnawn dydd Mercher, Chwefror 28, anrhegwyd deiliaid Ysgol Sul y lle uchod â gwledd o dê o'r fath oreu gan Mr. Davies, Llwynifan Cottage a Mr. Williams, Heolybont, Llanybyther. Daeth nifer fawr yn nghyd, a dangosent eu bod oll yn gwerthfawrogi'r caredigrwydd hwn ar law eu cymwynaswyr. Cyflwynwyd diolchgarwch gwresocaf yr Ysgol a'r

Eglwys iddynt am eu haelioni. Dilynwyd yn yr hwyr gan gyfarfod cystadleuol. Cadeiriwyd gan Mr. Lewis Thomas, Brynhafod, ac arweiniwyd gan Mr. J. T. Lewis, C.M., Pencarreg. Barnwr y Gerddoriaeth oedd Mr. W. Evans, L.T.S.C., Llandyssul, y Farddoniaeth, D. H. James, Ysw., Beilibedw, a'r Amrywiaeth, y Parch. D. Spenser Jones, B.A., Aberduar. Cyfeilyddes, Miss Thomas, Market Place, Llanybyther. Yr oedd y Capel yn rhy fach i gynwys y gwyddfodolion. Cafwyd cystadleuaeth dda ar bob testyn. Mor bell ag y gwyr yr ysgrifenydd fe roddodd y beirniaid foddlonrwydd cyffredinol; yr hyn sydd waith pur anhawdd i'w wneud. Diweddodd y cyfarfod haner awr wedi deuddeg. Cwrdd llwyddianus o'r dechreu i'r diwedd.

LLWYNRHYDOWEN. — Cynhaliodd Ysgol Sul y lle uchod ei gwyl dê a'i chyfarfod adloniadol blynyddol prydnawn Llun, Mawrth 4. Daeth nifer luosog yn nghyd i'r wledd, er i amryw fethu o herwydd afiechyd, a dywedai pawb mai gwledd yn ystyr helaethaf y gair ydoedd. Rhoddwyd y tê gan Mr. a Mrs. Oliver, Blaeneinon, ac y mae aelodau y gynulleidfa a'r Ysgol Sul yn ddiolchgar iawn iddynt am y ddarpariaeth ardderchog a wnaethant. Yn yr hwyr cafwyd cyfarfod hwylus iawn yn yr hen gapel o dan lywyddiaeth Mr. John Jones, Bwlchyfedwen. Cafwyd adroddiadau bron gan yr oll o'r plant. Canodd y plant amryw ddarnau o dan arweiniad Miss Dinah Jones, Gelliaur, a'r côr o dan arweiniad Mr. Johnnie Davies, Gellifaharen, ond gorweddai dyddordeb y cyfarfod yn y cystadleuthau. Bu yma gystadlu, a chystadlu brwd hefyd, mewn adrodd, canu, dyweyd ffraethebau, &c. Beirniad y canu oedd Mr. Evan Richards, Llandyssul. a chyflawnodd ei waith yn rhagorol. Beirniadwyd yr adroddiadau, &c., gan Mr. J. R. Thomas, Pontshaen.

Y GRAIG A GELLIONEN.—Mae y cyfarfodydd adloniadol "cyfres y gauaf" wedi eu gorphen un waith eto. Cynhaliwyd yr un cyntaf Tachwedd 18fed, 1911, a'r olaf nos Sadwrn, Mawrth 9fed, 1911, yn Vestri y Graig. A gellir dweyd a phrofi y tu hwnt i bob amheuaeth, na chynhaliwyd erioed gyrddau yn un ran o "Wlad fy Nhadau" yn fwy adeiladol a dyddorol. Amrywient yn eu natur, fel pethau eraill, ar lwyfan byd. Cafwyd ynddynt—y llon, y difyr, yr hapus, a'r difrif; a rhaid i ddyn wrth yr oll o'r rhai hyn, ar adegau yn ei fywyd. Gan mai i'r plant yn fwyaf neillduol y bwriedid iddynt fod, ofnir weithiau, nad yw y dô ieuengaf yn ddigon amlwg yn nghryd boreuol y cyrddau hyn. Llywyddwyd ynddynt gan amryw, nad enwir yma,—am y byddai yn rhestr faith. Cyfeiliwyd gan Mr. Isaac E. Hopkin, Brynderw, Trebanos. Diolchir yn fawr i bob un gymerasant ran yn y llafur a'r lludded i wneud yr oll mor llwyddianus. Mri. L. H. Morgan a J. J.Williams oeddent y cyd-ysgrifenyddion, a Mr. Dan W. Bowen y trysorydd; ac y maent wedi gwneud ei gwaith yn ganmolus.——Yn y Graig, nos Nadolig, mwynhawyd cyfarfod o radd uwch dan lywyddiaeth meistrolgar Mr. John Hopkin, Brynderw. Cyfeiliwyd gan Mri. Isaac E. Hopkin a H. H. Morgan. Yn y prydnawn, am bedwar, anrhegwyd deiliaid yr Ysgol Sul â gwobrwyon, mewn llyfrau destlus a gwerthfawr, am eu mynychiad cyson o'r Ysgol Sul yn ystod y flwyddyn 1911. Gwelsom amryw o'r llyfrau, ac yn wir, y maent yn ddarllenadwy iawn,—gellir dyweyd am bob llyfr "Na fernwch wrth yr olwg, eithr bernwch farn gyfiawn."——Nos Sadwrn, Mawrth 2il, yn Neuadd Gyhoeddus, Pontardawe, dan nawdd Gobeithlu Gellionen a'r Graig rhoddwyd perfformiad campus o'r chwareugerdd gerddorol a dramayddol a elwir "*A Holiday on the Sands*," gan Maurice Johnstone, mewn cymeriad cyflawn. Cafwyd cynulliad ardderchog, llanwyd y neuadd yn mhell cyn amser cychwyn. Bu yn agos mil a haner o bobl, o bob gradd,

yn eistedd i wrando, ac edrych ar lafur blwyddyn bron, yn cael eu actio ar gân a llafar gan rai mewn oed, a chan yn agos i gant o blantos hapus a dyfal. Gofod a balla i ni enwi neb, er y carem yn fawr, ond boddlonwn ar ddweyd fod pawb wedi myned drwy eu gwaith yn ardderchog. Arweinydd y Gerddorfa Linynol oedd Mr. Joseph Morgan, Alltwen; Cyfeilydd—Master Isaac Emlyn Hopkin, Brynderw; a'r prif arweinydd ac addysgwr—Mr. Henry H. Morgan, Heolnewydd, Trebanos. Rhoddwyd y gofal i werthu prwygreifft i law Mr. Lewis Morgan, Clydach-ar-dawe; a Mr. John Jones, Pontardawe gyda'r *Curtain*. Ac ar ran a thros y Pwyllgor a chynulleidfa Gellionen a'r Graig fe ddiolchir yn galonog gynes i bob un, yn wryw, benyw, yn fachgen, a merch, bach a mawr,—ac yn neillduol felly i'r cyfeilydd a'r prif arweinydd, pa ddau sydd wedi aberthu amser a phleser i gael pobpeth mor ganmoladwy gryno. Ymdeithiodd Seindorf Arian Trebanos drwy y lle cyn, a chwareuasant ddau ddarn bywiog i agor y gyngherdd. Derbynied pawb y diolchgarwch mwyaf cynes.——Erbyn y gwel y nodion hyn wawl deilos YR YMOFYNYDD, os cawn ni fywyd, iechyd, a nerth, bydd ein bugail newydd, yn mherson y blasus bregethwr, y Parch. D. G. Rees, Penybont-ar-ogwr, ar neu wedi dechreu ar ei waith, gyda ni yn Gellionen a'r Graig. Dau air amlycaf tafodau pawb yw,—"Priodas dda." Hir y pery, meddaf finau.

PANTDEFAID.—Cynhaliodd Ysgol Sul yr uchod ei gwyl dê flynyddol dydd Iau, Mawrth 14, pryd y daeth yn nghyd lu mawr o aelodau yr Ysgol Sul a chyfeillion yr Eglwys. Rhoddwyd y wledd eleni trwy garedigrwydd Mr. a Mrs. Thomas, Penarwel, a chafwyd profion ddigon yn nghyfarfod yr hwyr fod eu gwaith wedi enill diolchgarwch gwresog holl feirdd a chantorion yr ardal. Cynorthwywyd Mrs. Thomas i weinyddu wrth y byrddau gan foneddigesau caredig yr eglwys ac yr oedd pawb mewn hwyl i dreulio y dydd yn yr yspryd iawn. Cadeiriwyd yn nghwrdd yr hwyr gan Mr. Thomas a buwyd am oriau yn mwynhau y plantos gan mwyaf o'r dechreu i'r diwedd yn mynd trwy eu hadrodd a'u canu. Rhanwyd amryw wobrwyon i'r plant am eu mynychiadau ffyddlon yn yr Ysgol drwy y flwyddyn. Talwyd diolchgarwch cynes i deulu Penarwel am eu caredigrwydd ac i bawb eraill fu yn cynorthwyo. Arosed dylanwad da y cyfan i fod yn anogaeth i fwy o weithgarwch yn yr Ysgol Sul a'r Eglwys.——Cynhaliwyd y *Rehearsal* gyntar o dan arweiniad Mr. J. R. Thomas yn y lle uchod nos Sul y 24ain. Daeth cynulliad gwell nag arfer yn nghyd a barn pawb oedd fod ein cantorion yn y pedair eglwys gynrychiolir yn dangos eu bod o ddifrif gyda'r rhaglen a'r anthem. Drwy weithgarwch a chydweithrediad y mae i ni gael Cymanfa Gerddorol deilwng.

Y PARCH. MINOT JUDSON SAVAGE, D.D.—*Llythyr oddiwrtho at ei fab ymadawedig.*—"*At Philip Henry Savage.* (*Ganwyd Chwef. 11, 1868; bu farw Mehefin 4, 1899*).—F'anwyl Phil,—Gan mai chwi yw'r cyntaf o gylch bychan ein teulu ni i fyned i'r "Bywyd hwnt i Angeu," ymddengys yn neillduol addas i mi ganiatau i'm cariad gael ei ffordd, a chyflwyno i chwi hwn, fy ymgais i gael allan fynediad i mewn i'r hafan niwl-gudd-iedig, am yr hwn y mae'r holl fyd wedi breuddwydio, a'r hwn y mae gwir garwyr ac uchel-feddylwyr pob oes wedi ei geisio. Yr wyf yn ddiolchgar, hyd y nod at ddagrau, am ein un flynedd ar ddeg ar hugain gyda'n gilydd—hyd y nod os hyny fydd y cyfan. Ond gadewch i fy malchder o honoch gael ei ffordd am funyd, tra'n gosod i lawr hanes a gredaf nas gall y byd braidd ddangos ei gyffelyb. Dim erioed y gosodwyd bys tad na mam arnoch oddieithr mewn cariad (caress). Ni fu erioed un awr o gamddealldwriaeth rhyngom. Ni roisoch erioed un awr o bryder i ni. Ni lefarasoch erioed un gair wrthym, na ninau wrthych chwithau, y

dymunem yn awr ei anghofio. Un peth yn rhagor gadewch i mi ei ddyweyd. Nid adwaenais erioed un mynediad ymaith mwy dewr. Ni ddarllenais erioed am un. O berffaith iechyd - fel y tybiem oll—aethoch i'r cysgod yn eich llawn nerth, a hyny o fewn tri diwrnod. Gydag addewid barddonol, a gydnabyddid yn gyffredin, gyda'r mwyafrif o'r rhai a garech, yn ogystal a'r hon yr oeddech ar fin ei phriodi, yn eich ymyl yn yr yspytty; gyda llwyddiant bydol o fewn golwg; gydag holl fywyd nwyfus a gobaith ieuenctid,—darfu i chwi wynebu'r cysgod gyda'r geiriau tyneraf o gariad tuag atom oll, ac heb un gair hunangar ar eich gwefusau. Ni ddarfu i chwi achwyn ei bod yn galed i droi ymaith oddiwrth bawb a garech, at ddyfodol na honech y gwyddech ddim am dano, ac yn yr hwn nid oedd sicrwydd eich ffydd yn gryf. "Nid oes angen arnaf am ragor o help; gallaf fyned wrthyf fy hunan yn unig." Gyda'r fath eiriau, darfu i chwi roddi cam dros y ffin, a chael, fel yr wyf yn hyderus gredu, oleuni clirach a bywyd eangach. Mi wnaf fi well gwaith o hyn allan, am eich bod chwi yn un o'r cwmwl mawr o dystion. Ac fel y breuddwydiais y nos o'r blaen, pan ddaw fy amser i fynd, edrychaf am eich wyneb fel y cyntaf i dori trwy'r niwl, pan yn croesi'r bar, ac yn dyfod i angor yn yr hafan y dymuna'r byd am dano. Credaf y gwnewch o hyn allan wylied drosom, ein helpu yn ol eich gallu, a pharotoi lle i ni; a bydd ein mynediad yn hawddach i ni sydd yn eich dal chwi yn ein calonau, am eich bod chwi yno. Bendithied Duw chwi, fy machgen, hyd oni chaf weled y llygaid a gauais, yn agor eto ac yn edrych i fy llygaid i.—Yn gariadus, eich Tad.—*Medi 1899.*"

ARHOLIAD BLYNYDDOL YR YSGOL SUL.—Cymer le ar y 9fed o Ebrill, am 5 o'r gloch. Hyderwn fod yr athrawon a'r plant yn gwneud eu goreu yn awr ar gyfer yr arholiad, ac y bydd nifer yr ymgeiswyr yn lluosocach eleni. Nid oes un o'r ysgolion wedi danfon casgliad eto. Gobeithio na fydd raid eu hadgofio ar ol y tro hwn.—L. WILLIAMS, *Ysg.*

FFANI BLODAU'R FFAIR.—Dyma enw hen gân fu'n boblogaidd iawn unwaith. Dafydd Niclas (1705—69), bardd teulu Aberpergwm, oedd yr awdwr. Yn y "Cambrian" (Sept. 7, 1805), ysgrifena un William Davies, Cringell, ger Castellnedd, mai efe a'i cyfieithodd i'r Saesneg dan yr enw "Fanny Blooming Fair." Anfonwyd y copi i'r "Cambrian," gan Jenkin Lewis [enw pur adnabyddus un amser] o Ferthyr. Yr oedd Mr. Nicholas yn enwog fel bardd ac fel ysgolor clasurol. Y mae rhai o'r syniadau wedi eu benthycia oddiwrth Horas. Rhydd y Dr. Owen Pugh ei enw fel un o feirdd Cadair Morganwg yn 1760.—Q.Q.

CYMRAEG ANGHYMREIGAIDD.—Mr. Gol.—A fyddwch chwi garediced a chaniatau i un a ddygwyd i fyny ar aelwyd Seisnig, gymaint a hyd bys o'ch gofod gwerthfawr i ysgrifenu ar y pwnc uchod? Yr wyf wedi talu tipyn o sylw i'r pwnc, ond yn methu deall sut y mae Cymry Cymreigaidd yn llithro mor fynych. Caraf Gymraeg glân, a charwn weld eich cylchiolyn yn weddol rydd o frychau. Nid wyf yn gwybod pa mor bell y mae Cymraeg lleol yn oddefol, ond braidd y credaf ei bod yn iawn i ysgrifenu *fobl.* Treigliadau *p* yw *b* a *ph*, pobl, dy bobl, ei phobl. Eto, paham yr ysgrifenir—myned gartref, myned adref sy'n iawn: aros gartref. Engraifft arall i derfynu—Paham na wahaniaethir rhwng cyfranu a chyfranogi, y cyntaf yn golygu rhoi, a'r ail derbyn. Os caiff y llinellau hyn dderbyniad, dichon y dychwelaf at y pwnc.—Yr eiddoch, &c.—M.P.G.

PANTDEFAID.—Credaf y bydd y sylwadau a ganlyn o ddyddordeb i'r cyfryw o ddarllenwyr YR YMOFYNYDD ag a garant hanes yr enwad. Y mae ger fy mron bregeth o eiddo y diweddar Barch. Thomas Rees, Blaengwrach, mab Rees Rees, Cilgell isaf, ac ewythr i mi, brawd fy mam. Bu farw Hydref 5, 1840, yn 27 oed. [Gwel '*Unitarian Students*'].

Testyn y bregeth yw, "Y neb a rodia yn uniawn a rodia yn ddiogel."—Diarhebion x, 9. Ar y tudalen olaf yr wyf yn cael—"*Finished Saturday, May 28th*, 1836"; ac mewn man arall: "Pregethwyd yn Mhantdefaid Bore Sul, Awst 14, 1836—y bregeth gyntaf draddodwyd yn y capel uchod ar ol ei ail adeiladu." Wedi hyny ychwanegir iddi gael ei thraddodi yn Ystrad, Medi 11, yn y bore; Capelygroes yn yr hwyr; yn Frowen hwyr Sul, Medi 18fed; Gellionen, Hydref 2, bore; Aberdar, Cwrdd Cwarter, bore Iau, Hydref 6; Coedycymer, Gorphenaf 23n, 1837; Blaengwrach, Gorphenaf 30n.—R. J. J.

DEWI SANT.—Mewn erthygl yn yr *Archaelogia Cambrensis* am Hydref 1910, ymdrinir â phwnc blwyddyn marwolaeth Dewi. Yn yr "Annales" rhoddir 601, rhydd William o Malmesbury 546; Sieffre o Fynwy 542—4; Rhygyfarch yn ei fywgraffiad a ddywed iddo farw dydd Mawrth, Mawrth 1af, 546. Nid dydd Mawrth oedd Mawrth 1af yn 546, ond dyna oedd yn 544, ac am hyny, daw'r Archesgob Usher i'r casgliad mai 544 oedd blwyddyn marwolaeth Dewi Sant. Er hyn oll daw awdwr yr erthygl grybwylledig i'r casgliad mai 601 yw'r flwyddyn y bu farw.—*S.N.S.*

TRAETHODYNAU UNDODAIDD

—AR WERTH.—

"YR EFENGYL YN OL UNDODIAETH,"
Y Parch. J. Minot Savage, D.D.

"Y DYN CRIST IESU,"
Y Parch. R. J. Jones, M.A.

"CREFYDD CYMRU FYDD,"
Y Parch. W. James, B.A., J.P.

"TUEDDIADAU'R OES,"
Y Parch. David Evans.

"YR EGLWYS A'I GWAITH,"
Y Parch. T. J. Jenkins.

"DDOE, HEDDYW, AC YFORY MEWN CREFYDD"
Y Parch. W. Tudor Jones, PH.D.

"ATDYNIAD CREFYDD RYDDFRYDIG,"
Y Parch. D. Delta Evans, Golygydd y "*Christian Life.*"

Gellir cael yr uchod oddiwrth OLYGYDD "Yr Ymofynydd," Llandyssul. Pris Ceiniog yr un. Telir y cludiad am ddwsin neu ragor.

J. D. Lewis, Argraffydd, &c., Gwasg Gomer, Llandyssul.

OLD SHOP, CRIBYN.

D. J. THOMAS,

General Draper, Milliner, Outfitter, Grocer, Ironmonger, and Boot and Shoe Merchant.

A well Selected Stock of Capes, Jackets and Millinery always on hand. Juvenile and Boys' Suits a Speciality.

Agent for E. W. PRATT & Co., Bristol, Manufacturers of the well-known "Holdfast" Brand of Boots and Shoes.

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

. . Fruit Trees, Roses and Shrubs. . .

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1857.)

Nurseryman, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School,

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s., including Free Laundry; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., F. Preston, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Miss J. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

STANDARD FLOUR

(Containing 80 per cent. of the whole wheat.)

T. E. JONES & Co. beg to announce that they are Millers of Standard Flour which contains 80 per cent. of the whole Wheat, including the Germ and Semolina. This Flour is a pure unadulterated Wheat Flour containing all the nutritive properties, and has passed the test of the "Daily Mail" Specialist. Also Manufacturers of Pure Welsh Oatmeal.

Prices on application—Wholesale and Retail.

T. E. JONES & Co., The Stores, Llandyssul, Ffrwdwen Mills, Ponttwelly, & Rhydowen Mills

TELEGRAMS—JONES CO., LLANDYSSUL.

FOOTWEAR of QUALITY.

We Stock a good Selection of Ladies', Gentlemen's, & Children's Boots & Shoes for all occasions.

We do not pin our faith to "One-Price" as though, in some unexplainable fashion, all the virtues were inseparably connected with some particular combination of figures.

We offer you a choice, at a range of prices which covers all requirements with the Utmost Value at the Price in every Pair.

Next time, try a pair of Ben. Evans' Boots and test the value "in the wear."

BEN. EVANS & Co., Ltd.,

SWANSEA.